




Ministry  
of Justice

# Legal Support: The Way Ahead

## Welsh Translation Summary



## Cyflwyniad

1. Mae gallu defnyddio cyfiawnder yn egwyddor hollbwysig sy'n sylfaen i reol y gyfraith ac sy'n ganolog i'n system gyfiawnder.
2. Fel gall pobl ddatrys eu problemau cyfreithiol yn llwyddiannus yn y llysoedd neu mewn ffyrdd eraill, mae'n bosibl bod angen help ychwanegol aryn nhw trwy gydol y broses. Gall y math o gymorth sydd ei angen ar bobl amrywio yn fawr – mae'n dibynnu ar yr unigolyn a'r broblem gyfreithiol y maen nhw'n ei hwynebu.
3. Pan gyfeirir yn y ddogfen hon at 'gymorth cyfreithiol', mae'n golygu'r holl gymorth sydd ar gael i bobl – popeth o wybodaeth, cyfarwyddiadau a chyfeirio pobl i gael cyngor cyfreithiol a chynrychiolaeth.
4. Er enghraifft, yn y camau cynnar, mae darparu gwybodaeth, egluro termau technegol a chyfeirio pobl at yr adnoddau sydd ar gael yn gallu bod yn bwysig iawn i gefnogi pobl i ddatrys eu problemau. Ar ben arall y sbectrwm, mae yna broblemau cyfreithiol sy'n galw am gyngor cyfreithiol neu gynrychiolaeth arbenigol mewn llys neu weithiwr cyfreithiol proffesiynol. Gall natur y mathau hyn o gymorth cyfreithiol amrywio yn fawr, wedi dweud hynny, gall y ddau fod yn briodol - mae'n dibynnu ar yr amgylchiadau. Mae'n bwysig ein bod yn ystyried ystod eang y gefnogaeth hon.
5. Yn wir, nid problemau cyfreithiol yn unig rydym yn eu hystyried yma yn eu hystyr traddodiadol<sup>1</sup>, ond hefyd, problemau eraill allai fod ag ateb cyfreithiol, neu broblemau sydd â'r potensial i ddatblygu i fod yn broblemau sydd angen cyngor cyfreithiol proffesiynol.
6. Gall cael at y lefel priodol o help yn ystod y camau cynnar bod yn fuddiol tu hwnt i helpu pobl ddatrys eu problemau cyfreithiol yn fwy effeithiol ac effeithlon. Yn ystod yr ymgysylltu rydym wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi clywed bod angen gwneud mwy i ddeall y mathau o waith cefnogi sy'n gweithio orau, pryd ac i bwy. Mae angen i ni ganolbwyntio ar anghenion pobl sy'n gofyn am help, a rhoi'r defnyddiwr wrth galon system newydd. Dyma'r materion yr ydym yn awyddus i'w harchwilio ymhellach.
7. Rydym yn deall bod gan y Llywodraeth rôl bwysig i'w chwarae o ran sicrhau bod y gwasanaethau y mae pobl yn cysylltu â hwy ynghylch problemau cyfreithiol neu'r broses gyfreithiol yn deg, yn hygyrch ac yn gytbwys.

---

<sup>1</sup> Diffinnir y problemau traddodadwy hyn fel problemau sy'n codi materion cyfreithiol sifil, p'un ai a yw'r rheini sy'n wynebu problemau o'r fath yn eu hadnabod felly ac a oes a wnelo'r system gyfreithiol ag unrhyw gamau a gymerir i ddelio â nhw ai peidio (gweler Genn, H. a Beinart, S., 1999. *Paths to justice: what people do and think about going to law*).

8. Rydym wedi treulio'r flwyddyn ddiwethaf yn ystyried amrywiaeth eang o dystiolaeth ac yn gweithio'n agos gyda grŵp eang o randdeiliaid ledled y wlad i asesu beth sydd angen ei wneud.
9. Rydym wedi ymrwmo i ddarparu ein gweledigaeth ar gyfer yr hirdymor; fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw'n bosibl cyflawni hyn dros nos. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu dechrau'r broses hon, ac fel y cam cyntaf, byddwn nawr yn cyflwyno sawl newid.
10. Byddwn yn datblygu ac yn darparu'r fersiwn newydd hon drwy gymryd y camau isod.

### **Sicrhau bod cymorth cyfreithiol ar gael i'r rheini sydd fwyaf agored i niwed**

- Rydym eisoes yn darparu £1.6 biliwn i'r rheini sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas er mwyn sicrhau bod cymorth cyfreithiol ar gael iddyn nhw. Byddwn yn gwneud mwy ynghylch y mater hwn.
  - Byddwn yn cynnal adolygiad i'r trothwyon ar gyfer hawlio cymorth cyfreithiol, a sut maent yn rhyngweithio gyda meini prawf ehangach. Tra bydd yr adolygiad hwn ar waith, byddwn yn parhau â'r trefniadau presennol i roi i bob un gredyd cynorthwyol a hynny trwy brawf modd.
  - Byddwn yn sicrhau bod mwy o bobl yn ymwybodol o'r hyn y mae ganddyn nhw hawl iddo o ran cymorth cyfreithiol a byddwn yn hysbysebu hyn yn well.
  - Byddwn yn diogelu'r rheini sydd fwyaf agored i niwed trwy gynyddu'r sgôp ar gyfer cymorth cyfreithiol i blant mudol sydd wedi cael eu gwahanu; a byddwn yn adfer mynediad di-oed at gyngor wyneb-yn-wyneb ar gyfer y rheini sy'n ceisio cymorth gydag achosion o anffafiaeth, dyled ac anghenion addysgol arbennig.
  - Hefyd, byddwn yn symleiddio'r cynllun Cyllid Achos Eithriadol (ECF) er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio mor effeithiol â phosibl.
  - Byddwn yn gwneud newidiadau i'r cymorth cyfreithiol sydd ar gael ar gyfer gwrandawiaid, er mwyn sicrhau bod teuluoedd mewn profedigaeth yn cael y cymorth priodol.

### **Sicrhau bod pobl yn gallu cael y cymorth cyfreithiol cywir ar yr amser iawn**

- Rydym yn deall bod cymorth yn ystod y camau cynnar yn gallu helpu pobl i ddatrys eu problemau yn fwy effeithiol ac effeithlon. Mae tystiolaeth yn profi y gall problemau, oni bai bod diagnosis yn cael ei wneud neu eu bod yn cael eu datrys, yn gallu dwysau, clystyru ac arwain at gylchoedd dieflig sy'n anodd iawn eu torri. Fodd bynnag, prin yw'r ymchwil i'r ffyrdd sy'n gweithio orau, pa bryd ac i bwy.
- Ymhellach, er ei bod hi'n aml yn cael ei awgrymu bod camau ymyrryd cynnar yn arwain at arbed arian, mae'n anodd datgelu'r union fuddiannau ariannol ac economaidd sydd i roi cyngor yn gynnar. Gan ein bod yn deall bod y cwestiwn

'beth sy'n gweithio' yn gymhleth ar draws mathau amrywiol o broblemau a grwpiau o'r boblogaeth, rydym am dreialu a gwerthuso mathau gwahanol o gamau ymyrryd cymorth cyfreithiol. Yn benodol:

- Rydym yn gweithio ar y cyd â darparwyr i ddatblygu cynhyrchion seiliedig ar y we er mwyn sicrhau bod amrywiaeth o becynnau cymorth cyfreithiol gyda'i gilydd mewn un man.
  - Byddwn yn gwella'r ffordd y mae cyngor a chymorth ar gael i bobl yn ein gwasanaeth dros y ffôn arbenigol ac yn treialu gwelliannau i'r gwasanaeth hwn.
  - Byddwn yn defnyddio cyllid i hyrwyddo darparu cymorth cyfreithiol drwy dulliau technegol.
  - Trwy gydnabod bod gwasanaeth cynhwysfawr ar gael, gall hyn roi'r cyfle i bobl gefnogi eu hunain, byddwn yn cydweithio'r â'r sector cyfreithiol a chynghori i werthuso'r porth cymorth cyfreithiol a'r effaith a gaiff.
  - Er mwyn profi'r effaith a gaiff cynnig cyngor cyfreithiol yn gynnar er mwyn datrys problemau'n gynt, byddwn yn treialu rhoi cyngor cyfreithiol yn gynnar wyneb yn wyneb mewn maes penodol o'r gyfraith lles cymdeithasol a'i gymharu ag atebion technegol, ynghyd ag ystyried costau ar yr un pryd.
  - Byddwn yn cynyddu'r cymorth rydym yn ei gynnig i ymgyfreithwyr drostynt eu hunain.
- Byddwn yn cynnal ymchwil ar yr holl gamau ymyrryd hyn er mwyn asesu'r ffordd orau i helpu a chefnogi'r rheini sydd ei angen, a pha bobl ddylen ni roi cymorth cyfreithiol iddyn nhw.

### **Sicrhau bod y Llywodraeth yn rhoi systemau a phrosesau gwell ar waith ynghyd â gwneud penderfyniadau gwell**

11. Ynghyd â'n gwaith i wella'r cymorth sydd ar gael i bobl, byddwn yn parhau â'n gwaith ar draws adrannau i helpu i wella ansawdd y penderfyniadau a wneir ar hawliau cyfreithiol. Byddwn yn parhau i foderneiddio'r system gyfiawnder er mwyn sicrhau bod ein ffurflenni a'n systemau mor syml ac mor rhwydd â phosibl i'w defnyddio a bod gwasanaethau ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd yn galluogi pobl i ddatrys eu hanghydfodau mor gyflym ac mor gynnar â phosibl.
12. Rydym am greu momentwm yn y maes hwn, ond rydym yn cydnabod mai dim ond y cam cyntaf yw hyn. Byddwn yn parhau i weithio yn agored ac yn gydweithredol gydag arbenigwyr dros y blynyddoedd nesaf, gan nodi a gwerthuso syniadau newydd, a chefnogi ymarferwyr i ymuno â'r proffesiwn cyfreithiol a pharhau i ddarparu cymorth cyfreithiol o'r radd flaenaf i bobl yng Nghymru a Lloegr am flynyddoedd lawer i ddod.







© **Crown copyright 2019**

This publication is licensed under the terms of the Open Government Licence v3.0 except where otherwise stated. To view this licence, visit [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](https://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3)

Where we have identified any third party copyright information you will need to obtain permission from the copyright holders concerned.